

Comisiynydd Plant Cymru Children's Commissioner for Wales

Adolygiad Blynyddol
Annual Review
08–09



Comisiynydd Plant Cymru Children's Commissioner for Wales

**Adolygiad Blynyddol
Annual Review
08-09**

Mae'r adroddiad a'r poster hwn ar gael mewn fformatau eraill drwy
ffonio 01792 765600 neu eostio cyhoeddiadau@complantcymru.org.uk

The report and poster are available in alternative formats by phoning us
on 01792 765600 or emailing us at publications@childcomwales.org.uk

ISBN: 978-0-9544431-2-2

04	Rhagair Foreword
10	Cyngor a chefnogaeth Advice and support
22	Cyfathrebu Communication
28	Cyfranogiad Participation
38	Polisi a gwerthuso gwasanaethau Policy and service evaluation
58	Adolygiad o faterion Review of issues
74	Casgliad Conclusion
78	Corfforaethol Corporate
82	Adroddiad ar Gyflogau Remuneration Report
86	Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifo Statement of Accounting Officer's Responsibilities
87	Datganiad ar Reolaeth Fewnol Statement of Internal Control
89	Tystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru Certificate and Report of the Auditor General for Wales
99	Cyfrifon Adnoddau Resource Accounts

Blwyddyn y tair A – Adroddiadau, Argymhellion ac Adolygu

The year of the 3Rs – Reports, Recommendations and Review

Comisiynydd Plant Cymru Children's Commissioner for Wales

**Rhagair gan/Foreword by
Keith Towler**



**Rwyf yn falch iawn o gyflwyno fy ail
adolygiad blynyddol fel Comisiynydd
Plant Cymru.**

**O'r cychwyn cyntaf, mae fy staff a mi
wedi bod yn benderfynol o ganolbwyntio'n
hymdrechion ar y meysydd lle gallwn wneud
y gwahaniaeth mwyaf – gan weithio mewn
modd strategol ac mewn partneriaeth.**

**I am pleased to present my second
annual review as the Children's
Commissioner for Wales.**

**From the outset my staff and I have been
determined to concentrate our efforts
on areas where we can make the most
difference – working in a strategic way
and in partnership.**

Eleni, cyhoeddom bedwar adroddiad pwysig yn ymwneud â gweithredu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) ar draws y Deyrnas Unedig, masnachu plant yng Nghymru, un ar fynediad sydd gan blant anabl at chwarae ac un arall am y swyddfa hon.

Rydym wedi parhau i ailadrodd ein galwadau ar i'r llywodraeth – ar lefel leol ac yng Nghaerdydd – roi argymhellion adroddiadau blaenorol ar waith, yn ymwneud yn bennaf â phlant a gwasanaethau iechyd meddwl.

Rwyf hefyd wedi arwain adolygiad o strwythur fy swyddfa. Roedd y swyddfa'n saith mlwydd oed eleni ac roeddwn o'r farn bod adolygu, pwyso a mesur a datblygu arferion gwaith newydd yn amserol. Rwyf eisiau sicrhau bod plant yng Nghymru yn gweld effaith wirioneddol ar eu bywydau a bod anghysondebau presennol mewn polisi, deddfwriaeth a gweithredu go iawn yn cael eu gostwng. Mae'r ymrwymiad hwn yn deillio o'm hasesiad o'r amgylchiadau a'r adnoddau a hefyd o'r angen am ddyrannu fy nghyllideb i feysydd lle gall fy swyddfa gyfrannu'n realistig at newid systemig, cadarnhaol ar gyfer plant a phobl ifanc.

This year has seen us publish four major reports around the implementation of the United Nations Convention on the Rights of the Child (UNCRC) across the UK, about child trafficking in Wales, one on disabled children's access to play and another about this office.

We have continued to repeat our calls on government – both on a local level and in Cardiff – to implement the recommendations of previous reports, mainly around child and mental health services.

I have also led a review of the structure of my office. The office was seven years old this year and I believed it was timely to review, take stock and develop new working practices. I want to ensure children in Wales really do see an impact on their lives and that current discrepancies in policy, legislation and actual implementation are reduced. This commitment stems from my assessment of the circumstances and resources and also from the need to allocate my budget to areas where my office can realistically contribute to positive, systemic change for children and young people.

O dan y deddfwriaeth a sefydlodd Gomisiynydd Plant Cymru, mae'n rhaid i'm swyddfa:

- roi sylw i CCUHP ym mhopeth a wnawn
- sicrhau bod plant a phobl ifanc yn gwybod ble mae ein swyddfeydd a sut mae cysylltu â ni
- annog plant i gysylltu â ni
- gofyn barn plant am ein gwaith a'n gwaith yn y dyfodol, a rhoi cyfle iddynt ddylanwadu ar y rhaglen waith
- sicrhau ein bod yn mynd i gyfarfod â phlant a phobl ifanc.

Hefyd, gall fy swyddfa:

- adolygu effeithiau polisiâu, polisiâu arfaethedig a chyflwyno gwasanaethau i blant
- edrych yn fanylach ar achos plentyn neu blant penodol os yw'n ymwneud â mater sy'n gyffredinol berthnasol i fywydau plant Cymru
- gofyn bod asiantaethau neu bobl sy'n gweithredu ar eu rhan yn darparu gwybodaeth, a gofyn bod tystion yn rhoi tystiolaeth ar eu llw
- darparu cyngor a chymorth i blant a phobl ifanc, ac i bobl eraill sy'n pryderu am eu hawliau a'u lles
- ystyried a chyflwyno sylwadau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar unrhyw fater sy'n effeithio ar hawliau a lles plant Cymru.

Er mwyn fy ngalluogi i gyflawni'r dyletswyddau deddfwriaethol mae gennyf dîm o 30 o staff, ym Mae Colwyn ac yn Abertawe, sy'n gweithio gydag ac ar ran plant a phobl ifanc 18 oed ac iau sy'n byw yng Nghymru, neu sy'n byw yng Nghymru fel arfer. Gallwn hefyd weithredu ar ran pobl ifanc hŷn (hyd at 25 oed) os yw awdurdod lleol wedi gofalu amdanynt.

Yn y penodau canlynol, byddaf yn cyflwyno prif ddyletswyddau fy staff ac yn rhoi golwg i chi ar ein gwaith o 1 Ebrill 2008 tan 31 Mawrth 2009.

Under the legislation that established the Children's Commissioner for Wales, my office must:

- have regard to the UNCRC in everything we do
- make sure that children and young people know where my offices are and how to contact us
- encourage children to get in touch
- ask children what they think about our work and our future work, and allow them to influence the work programme
- make sure that we go and meet children and young people.

My office can also:

- review the effects of policies, proposed policies and the delivery of services to children
- examine in more depth the case of a particular child or children if it involves an issue that has a general application to the lives of children in Wales
- require information from agencies or persons acting on their behalf, and require witnesses to give evidence on oath
- provide advice and assistance to children and young people, and others concerned about their rights and welfare
- consider and make representations to the National Assembly for Wales about any matter affecting the rights and welfare of children in Wales.

To enable me to fully fulfil these legislative duties I have a team of 30 staff, based in Colwyn Bay and in Swansea, who work with and for children and young people aged 18 or under living in Wales, or who normally live in Wales. We can also act on behalf of older young people (up to the age of 25) if they have been looked after by a local authority.

In the following chapters I will introduce my staff's main duties and will give you an insight into our work from 1 April 2008 until 31 March 2009.



Cyngor a chefnogaeth Advice and support

“Sefydlwyd Comisiynydd Plant Cymru gan Ddeddf Safonau Gofal 2000. O dan y Ddeddf, gallaf, fel Comisiynydd:

- roi cyngor a gwybodaeth i blant, pobl ifanc, ynghyd â gweithwyr proffesiynol ac oedolion eraill sy’n pryderu am hawliau a lles plentyn neu blant yn gyffredinol
- cynnig cyngor a chefnogaeth i blant a phobl ifanc, gan eu helpu nhw i fynegi eu barn a’u dymuniadau
- edrych ar achosion lle’r oedd potensial i wasanaethau fethu plentyn neu blant
- cynorthwyo plant a phobl ifanc – gan gynnwys darparu cymorth ariannol a chynrychiolaeth mewn achosion llys – nad yw eu hawliau wedi cael eu parchu.

Tra bod grymoedd y swydd yn helaeth, mae pethau na all fy swyddfa eu gwneud, er enghraifft, ni allwn edrych ar unrhyw fater sy’n destun achos llys neu y penderfynwyd arno gan lys neu dribiwnlys.”

“The Children’s Commissioner for Wales was established by the Care Standards Act 2000. Under the Act, as Commissioner I can:

- provide advice and information to children, young people as well as to professionals and other adults who are concerned about the rights and welfare of a child or of children in general
- offer advice and support to children and young people, helping them to express their views and wishes
- examine cases where services could have potentially failed a child or children
- assist children and young people – including providing financial assistance and representation in legal proceedings – whose rights have not been respected.

While the powers of the office are wide, there are also things my office cannot do; for example, we cannot look into any matter as far as it is subject to legal proceedings or has been determined by a court or tribunal.”

Eleni, agorom 529 o achosion newydd

Achos yw pan fydd rhywun yn cysylltu â ni am rywbeth sydd wedi digwydd, neu rywbeth nad ydynt yn hapus amdano. Gallai achos fod yn ymwneud ag un neu lawer o bobl ifanc a gallai ymwneud ag un neu fwy o broblemau.

This year we opened 529 new cases

Cafodd 321 o'r achosion hyn eu cyfeirio, neu rhoddwyd cyngor iddyn nhw

Ystyr "Dargyfeirio achos" yw ein bod yn dweud wrth y galwr am sefydliad arall sy'n gallu ei helpu. Rydym bob amser yn gwneud yn siŵr ein bod yn rhoi manylion cyswllt y sefydliad arall i'r galwr. Weithiau hefyd byddwn yn cyfeirio achos. Ystyr hyn yw ein bod yn cysylltu â sefydliad arall ar ran y galwr ac yn gofyn iddo gysylltu â nhw.

A case is when someone gets in touch with us about something that has happened, or something that they aren't happy about. A case could be about one or many young people and could be about one or a number of issues.

321 of these cases were signposted or given advice

Signposting a case means we tell the caller of another organisation that can help them out. We always make sure that we give the caller the contact details of the other organisation. Sometimes we also refer a case. This means that we contact another organisation on behalf of the caller and ask them to get involved.

Daeth y 208 arall yn achosion llawn.

Achos llawn yw pan fyddwn yn parhau i gymryd rhan yn yr achos ac yn cefnogi'r plentyn neu'r unigolyn ifanc wrth weithio gydag asiantaethau eraill i ddod i gasgliad priodol.

The other 208 became full cases.

A full case is when we stay involved and support the child or young person to work with other agencies to reach an appropriate outcome.

Ein Swyddogion Cyngor a Chymorth

Mae gennym bum swyddog yn ein tîm Cyfreithiol ac Ymchwiliadau ar draws y ddwy swyddfa. Mae'r swyddogion hyn, sydd â chyfoeth o brofiad ac arbenigedd cyfreithiol, gwaith cymdeithasol ac eiriolaeth, yn teithio ledled Cymru i gyfarfod â phlant a phobl ifanc er mwyn gwranddo, cefnogi ac eirioli ar eu rhan. Mae gennym ddau swyddog Cymraeg eu hiaith a gallwn gael cyfieithwyr ar y pryd er mwyn i unrhyw blentyn, unigolyn ifanc neu oedolyn sydd â phryderon am blentyn allu cyfathrebu â ni yn yr iaith o'u dewis.

Our Advice & Support Officers

We have five officers within the Legal & Investigations team based across two offices. These officers, who have a wealth of legal, social work and advocacy experience and expertise travel all over Wales to meet with children and young people to listen, support and advocate on their behalf. We have two Welsh-speaking officers and have access to interpreters to enable any child, young person or adult with concerns over a child to communicate with us in their preferred language.

Astudiaeth achos 1/Case study 1

Cysylltodd rhieni bachgen ifanc ag anghenion addysgol arbennig difrifol, sy'n mynychu uned arbennig, â ni. Roedd y teulu'n pryderu'n fawr gan nad oedd unrhyw gefnogaeth gan y gwasanaethau cymdeithasol ac roedden yn cael trafferth ymdopi a bodloni anghenion eu mab. Roeddent wedi ceisio cael cefnogaeth o'r blaen ond heb lwyddiant. Roeddent hefyd yn pryderu ynghylch beth fyddai'n digwydd pan fyddai'n dod yn oedolyn yn 18 oed ac y byddai'n rhaid iddo adael yr uned.

Fe wnaethom gysylltu â'r gwasanaethau cymdeithasol am hyn a phwysleisio'r angen am gynllunio da adeg yr adolygiad pontio. Cytunodd y gwasanaethau cymdeithasol â ni a darparon nhw'r gefnogaeth angenrheidiol.

We were contacted by the parents of a young person with severe special educational needs, who attends a special unit. The family were very concerned as there was no social services support and they were struggling to manage and meet their son's needs. They had tried to obtain support previously without success. They were also worried about what would happen when he became an adult at 18 and would have to leave the unit.

We made contact with social services about this and emphasised the need for good planning at the transitional review. Social services agreed with us and provided the necessary support.

Sut ydym ni'n gweithio

Mae pobl yn cysylltu â ni mewn sawl ffordd, dros y ffôn, neges testun, llythyr neu neges e-bost a bydd y swyddog ar ddyletswydd yn penderfynu pa gamau sydd angen eu cymryd ar sail pob achos unigol. I'n helpu ni i benderfynu ar y camau gorau, rydym ni'n gofyn y pum cwestiwn canlynol wrth ddadansoddi'r achos:

1. A yw'r plentyn neu'r unigolyn ifanc yn 18 oed neu'n iau, neu hyd at 25 oed os ydynt wedi bod yng ngofal yr awdurdod lleol?
2. A yw'r plentyn neu'r unigolyn ifanc eisiau i ni chwarae rhan?
3. A yw'r plentyn neu'r unigolyn ifanc yn byw yng Nghymru fel arfer?
4. A oes gennym ganiatâd, yn ôl ein deddfwriaeth, i chwarae rhan yn yr achos?
5. A oes sefydliad arall sydd eisoes yn ei le i ddelio â'r achos?

Os taw 'ie' yw'r ateb i gwestiynau rhif 1 i 4 a 'na' yw'r ateb i rif 5, yna gallwn gynnig cyngor a chefnogaeth. Os taw ie yw'r ateb i rif 5, yna byddwn yn cysylltu â'r sefydliad hwnnw i sicrhau eu bod yn gallu helpu'r plentyn a'r unigolyn ifanc.

Ni fyddwn fyth yn rhoi rhif ffôn arall i blentyn neu unigolyn ifanc ei ffonio; byddwn bob amser yn gwneud y cysylltiad cyntaf ar eu rhan.

Os ydym yn chwarae rhan yn y broblem, byddwn yn gwneud ein gorau i roi ateb cyflym. Mae'n bosibl y byddwn yn siarad â phobl dros y ffôn neu efallai y byddwn yn gofyn am gyfarfodydd er mwyn helpu i'r plentyn neu i'r unigolyn ifanc gael dweud ei ddweud. Pryd bynnag y bydd cyfarfodydd o'r fath yn cael eu trefnu, byddwn yn cyfarfod â'r plentyn neu'r unigolyn ifanc yn y lleoliad sydd orau iddynt.

How we work

We are contacted in a number of ways, by phone, text, letter or email, and the duty officer will determine what action needs to be taken on a case-by-case basis. To help us decide on the best course of action, we ask the following five questions when analysing the case:

1. Is the child or young person 18 years old or under, or up to 25 years old if they have been in local authority care?
2. Does the child or young person want us to be involved?
3. Does the child or young person usually live in Wales?
4. Are we allowed, according to our legislation, to get involved with the case?
5. Is there another organisation already in place to deal with the case?

If the answer to questions number 1 to 4 is yes and the answer to number 5 is no, then we can offer advice and support. If the answer to number 5 is yes, then we will contact that organisation to ensure they are able to help the child and young person.

We will never give a child or young person another telephone number to call; we will always make the initial contact on their behalf.

If we do become involved in an issue we will do our best to identify a quick solution. We may speak to people over the telephone or we may ask for meetings to help the child or young person have their say. Whenever such meetings are arranged, we meet with the child or young person at a location that suits them best.

Astudiaeth achos 2/Case study 2

Cysylltodd merch ifanc ag anghenion addysgol arbennig â ni. Roedd lle wedi cael ei ddyrannu i'r ferch ifanc hon yn y coleg o'i dewis, a awgrymwyd iddi gan ei gwasanaethau cymdeithasol. Fodd bynnag, oherwydd ei hanabledd, nid oedd yn gallu defnyddio cludiant cyhoeddus ac roedd problem ynghylch pwy fyddai'n darparu cludiant er mwyn ei galluogi hi i fynychu'r cwrs.

Roedd eiriolaeth wedi ceisio ond wedi methu â sicrhau cludiant felly penderfynodd y ferch ifanc hon ddom atom ni am gymorth. Cysylltom ni â'r gwasanaethau cymdeithasol a Gyrfa Cymru ac awgrymu y gallent rannu'r gost o ddarparu cludiant, a gwnaethant gytuno i hynny. Erbyn hyn, mae'r ferch ifanc wrth ei bodd yn mynd i'r coleg ac i'r cwrs o'i dewis.

A young person with special educational needs contacted us. This young person had been allocated a place at her preferred college, which had been suggested to her by social services. However, due to her disability she was unable to use public transport and there was an issue over who would provide transport to enable her to attend the course.

Advocacy had tried but failed to secure transport so this young person decided to come to us for help. We contacted social services and Careers Wales and suggested they could share the cost of providing transport, which they agreed to do. The young person is now happily attending the college and course of her choice.

Pwy sy'n cysylltu â ni?

Gall unrhyw un gysylltu â ni am gyngor, o blant a phobl ifanc, drwy ein gwasanaeth rhif rhadffôn neu rhadtecst, i weithwyr proffesiynol ac oedolion eraill sy'n pryderu am blentyn neu unigolyn ifanc.

Dyma'r bobl sydd wedi cysylltu â ni eleni am gyngor a chefnogaeth:


O'n profiad ni, rhieni, aelodau o'r teulu estynedig neu ofalwyr yw'r prif eiriolwyr dros hawliau a lles plant. Nid yw'n syndod mai'r eiriolwyr hyn sydd fel arfer yn cysylltu â ni yn gyntaf.

Who contacts us?

Anyone can contact us for advice and support from children and young people, via our freephone number and text service, to professionals and other adults who are concerned about a child or young person.

In our experience, parents, extended family members or carers are the principal advocates for children's rights and welfare. Not surprisingly, it is usually these advocates who contact us first.

Here are the people who have contacted us this year for advice and support:



Llai na 4/Less than 4

- Di-enw/Anonymous 3
- Gweithiwr Iechyd Proffesiynol/Health Professional 2
- Deiseb/Petition 1
- Yr Heddlu/Police 1
- Y Gwasanaeth Prawf/Probation Service 1
- Ysgol/School 1
- Gweithiwr Cymdeithasol/Social Worker 3
- Cyfreithiwr/Solicitor 1
- Athro/Aithrawes/Teacher 3
- Tîm Troseddau Ieuencid/Youth Offending Team 1

(* Sylwer: Ni fu'n orfodol tan y pryd hwn i'r Swyddogion Cyngor a Chefnogaeth gofnodi pwy sy'n cysylltu â ni felly ni fu modd rhoi tarddiad y 529 o achosion y gwnaethom ymdrin â nhw yn 2008/09.)


(* Please Note: It has not been compulsory until now for our Advice & Support Officers to record who contacts us therefore it has not been possible to identify the origin of the 529 cases dealt with in 2008/09.)

Sut gwnaethpwyd y cysylltiad cyntaf?

Defnyddiwyd ein gwasanaeth rhadffôn 338 gwaith eleni, gyda 196 o alwyr yn gwneud y cysylltiad cyntaf â'n swyddfa drwy'r rhif 0808 801 1000 (cynnydd o 16.7% ar alwadau'r llynedd.)

What did they contact us about?

Our freephone service was used 338 times this year, with 196 callers making initial contact with our office via the 0808 801 1000 number (an increase of 16.7% on last year's calls.)




Pam gwnaethon nhw gysylltu â ni?

Eleni, codwyd 635 o broblemau unigol gyda ni o 529 o achosion. Roeddent yn cynnwys:

What did they contact us about?

This year, 635 separate problems were raised with us from 529 cases. They included:



Astudiaeth achos 3/Case study 3

Cysylltodd merch ifanc a oedd mewn lleoliad preswyl â'r Comisiynydd. Pwysleisiodd y ferch ifanc hon i'r Comisiynydd nad oedd yn fodlon â'r lleoliad hwn a'i bod eisiau symud. Cyfarfu aelod o'n tîm â'r ferch ifanc i sefydlu ei dymuniadau a'i theimladau. Yna, cysylltom â gweithiwr cymdeithasol y ferch ifanc i drafod barn y ferch ifanc. Cytunwyd y byddai cyfarfod amlddisgyblaeth yn cael ei gynnal i drafod y sefyllfa.

Yn dilyn y cyfarfod, cytunwyd y gallai'r ferch ifanc symud i leoliad arall a fyddai'n bodloni ei hanghenion a lle byddai'n hapus.

The Commissioner was contacted by a young person who was in a residential setting. This young person stressed to the Commissioner that she was not happy at this placement and wanted to move. A member of our team met with the young person to gather her wishes and feelings. We then contacted the young person's social worker to discuss the young person's views. It was agreed that a multi-disciplinary meeting was held to discuss the situation.

Following the meeting it was agreed that the young person could move to another placement which would meet her needs and where she would be happy.

Tueddiadau sy'n dod i'r Amlwg

Addysg yw'r prif faes y mae pobl yn cysylltu â ni yn ei gylch o hyd, gyda'r gwasanaethau cymdeithasol yn dilyn. O'r achosion addysg, roedd 27 yn ymwneud ag anghenion addysgol arbennig, roedd 25 yn achosion lle'r oedd pobl yn chwilio am gyngor ac roedd 22 yn ymwneud â chwynion. Roedd mwyafrif helaeth yr achosion yn y categori gwasanaethau cymdeithasol yn ymwneud â chwynion (21).

Roedd galwadau a dderbyniom gan blant a phobl ifanc yn ymwneud yn bennaf â'r amgylchedd, gyda bechgyn yn codi materion yn ymwneud â materion hawliau plant mewn addysg a merched yn gofyn am gyngor ar faterion amgylcheddol.

Emerging Trends

Education remains the main area that people contact us about, followed by social services. Of the education cases, 27 were about special educational needs, 25 were cases seeking advice and 22 about complaints. The vast majority of cases in the social services category related to complaints (21).

Calls that we received from children and young people were mainly about the environment with boys raising issues around child's rights issues in education and girls seeking advice on environmental issues.

Gweithio mewn Partneriaeth

Datblygiad arwyddocaol eleni fu'r cynnydd yn nifer y galwadau yr ydym yn eu dargyfeirio i sefydliadau eraill sy'n arbenigo mewn meysydd penodol – o 72 o alwadau yn 2007/08 i 138 yn 2009/09.

Yn aml, bydd llawer o blant a phobl ifanc yn cysylltu â ni yn niffyg popeth arall ac felly ni fyddwn fyth yn eu trosglwyddo i sefydliad arall dim ond trwy roi rif arall iddynt ei ffonio neu gyfeiriad e-bost arall. Rydym yn cysylltu â'r gwasanaeth neu'r eiriolydd perthnasol ar eu rhan er mwyn sicrhau bod yr ymholiad yn fater y maent yn gallu ymdopi ag ef ac yna'n rhoi'r naill a'r llall mewn cysylltiad â'i gilydd.

Mae'r tri phrif wasanaeth neu eiriolydd yr ydym yn dargyfeirio galwadau iddynt yn cynnwys: swyddogion cwynion ar lefel awdurdod lleol (30 achos), SNAP Cymru (25 achos) a chyfreithwyr (24 achos).

Hefyd, rydym ar hyn o bryd yn draffio memorandwm dealltwriaeth gyda'r Gwasanaeth Cyngori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd (CAFCASS) Cymru. Diben hwn fydd cynorthwyo'r ddau sefydliad i rannu gwybodaeth a allai ddatgelu'r angen am ddatblygu polisi yn ehangach, meysydd posibl lle ceir cyfleoedd am weithio ar y cyd rhwng y ddau sefydliad ac er mwyn osgoi dyblygu mewn meysydd lle gallai ein rolau orgyffwrdd.

Working in Partnership

A significant development this year has been the increase in the number of calls we signpost on to other organisations who specialise in particular fields – from 72 calls in 2007/08 to 138 in 2009/09.

Often we are the last resort for many children and young people who contact us and so we never pass them on to another organisation by just providing them with another number to call or another email address. We contact the relevant service or advocate on their behalf to ensure the enquiry is something they can handle then put them in touch with each other.

The three main services or advocates we signpost calls onto include: complaints officers at local authority level (30 cases), SNAP Cymru (25 cases) and solicitors (24 cases).

We are also currently drafting a memorandum of understanding with Children and Family Court Advisory and Support Service (CAFCASS) Cymru. The purpose of this will be to assist both organisations in sharing information which might reveal the need for wider policy development, potential areas of opportunities for collaborative working between the organisations and to avoid duplication in areas where our roles may overlap.

Astudiaeth achos 4/Case study 4

Cysylltwyd â ni am gyngor ar blant yn cael eu gorfodi i ddefnyddio ystafelloedd newid chwaraeon ar gyfer oedolion. Roeddem wedi dargyfeirio'r galwr i Uned Amddiffyn Plant mewn Chwaraeon yr NSPCC ac i Gyngor Chwaraeon Cymru, a oedd yn gallu rhoi cyngor priodol i'r oedolyn a oedd yn galw.

We were contacted for advice about children being forced to use adult sport changing rooms. We signposted the caller to the NSPCC Child Protection in Sport Unit and Sports Council for Wales who were able to provide the adult caller with appropriate advice.

Home

About Us

Publications

Rights



Press Centre

Useful Info

Contact

Cymroeg

1.

Ateb nôl
Beth sy'n bwysig i chi?

2.

BackChat
what matters to you?

3.

4.

Latest...

Our new Backchat questions are online now. Make sure you don't miss any new Backchat questions by downloading our Bebo widget at the bottom of the page.

BackChat
what matters to you?

Advisory Groups

Find out more about our two advisory groups [here](#)

Advice & Support

Call 0808 801 1000 between 9am and 5pm (Monday to Friday) and ask for Advice and Support. Or text us free on 80800

0808 801 1000

Games & Quizzes

Play the 'Know Your Rights' game



School Ambassadors

Tell your school about the Commissioner & about children's rights!



more info here!

Cyfathrebu Communication

“Mae gan fy swyddfa rwymedigaeth statudol i hyrwyddo hawliau a lles plant.

Mae gan bob aelod staff ran i’w chwarae wrth hyrwyddo ein gwaith a’r hyn y safwn drosto. Rydym yn ymateb i nifer o wahoddiadau i wneud cyflwyniadau a gweithdai ar waith y swyddfa a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn (CCUHP) ac mae fy nhîm wedi treulio’r deuddeg mis diwethaf yn codi fy mhroffil fel Comisiynydd Plant newydd Cymru.”

“My office has a statutory obligation to promote the rights and welfare of children.

All members of staff have a part to play in promoting our work and what we stand for. We respond to a number of invitations to deliver presentations and workshops about the work of the office and the United Nations Convention on the Rights of the Child (UNCRC) and my team have spent the last twelve months raising my profile as Wales’ new Children’s Commissioner.”

Calendr ymweliadau'r Comisiynydd: The Commissioner's calendar of visits:

Mis/Month	Ymweliad/Visit
2008	
Ebrill/April	Ysgol Uwchradd Llanedeyrn/Llanedeyrn High School Ysgol Uwchradd Dyffryn Taf/Dyffryn Taf High School
Mai/May	Gwobrau TTI Caerffili a Blaenau Gwent/Caerphilly Blaenau Gwent YOT Awards Canolfan Blant Jig-So, Aberteifi/Jig-So Children's Centre, Cardigan Ysgol Y Plant, Aberteifi/Ysgol Y Plant, Aberteifi Eisteddfod yr Urdd/Eisteddfod yr Urdd Grŵp OROS Draig Ffyni/Funky Dragon OROS Group
Mehefin/June	Plant sy'n Derbyn Gofal, Y Rhyl/Looked After Children, Rhyl Pixel Power, Y Rhyl/Pixel Power, Rhyl
Gorffennaf/July	Llysgenhadon/Ambassadors Group Gŵyl Ynys Môn/Anglesey Festival Gwobrau Impetus/Impetus Awards Prosiect Chwarae Arberth/Narberth Play Project
Medi/September	Grŵp Ymgynghorol Preswyl/Advisory Group Residential
Hydref/October	Taith Amser i Siarad / Amser i Wrando Cymru/Time to Talk / Time to Listen Tour of Wales
Tachwedd/November	Urddo Maer Ieuencid Blaenau Gwent/Blaenau Gwent Youth Mayor Inauguration Ysbyty Plant Cymru/Children's Hospital Wales Ysgol Gynradd Babyddol Y Forwyn Fair a Sant Mihangel/Our Lady & St Michael's RC Primary School Uwch-Gyngor Plant Blaenau Gwent/Blaenau Gwent Grand Children's Council
Rhagfyr/December	Carchar y Parc, Pen-y-bont ar Ogwr/Parc Prison, Bridgend Canolfan Pobl Gadarnhaol Ysgol Gyfun Mynwy/Monmouthshire Comp School Positive People Centre
2009	
Ionawr/January	Rhoi Pobl Ifanc yn Gyntaf, Caerdydd/Cardiff Young People First
Chwefror/February	Ysgol Penfro/Pembroke School Prosiect Cyffuriau Abertawe/Swansea Drugs Project
Mawrth/March	Ysgol Millbank, Caerdydd/Millbank School, Cardiff Prosiect Ieuencid Pantyfynnon/Pantfynnon Youth project Fforwm Theatr Llais/Llais Theatre Forum So to Do yn Stadiwm Liberty/So to Do at Liberty Stadium Ysgol Uwchradd y Frenhines Elizabeth, Caerfyrddin/Queen Elizabeth High School, Carmarthen

Ers mis Ebrill 2008, mae'r Comisiynydd wedi ymweld ag o leiaf un ysgol neu un grŵp ieuencid bob mis. Ym mis Hydref 2008 cymerodd ran yn ein taith agoriadol Amser i Siarad / Amser i Wrando pan ymwelodd â phob awdurdod lleol yng Nghymru, gan gyfarfod â thros 1000 o blant a phobl ifanc. Rhoddodd y daith gyfle i Keith wrando ar blant a phobl ifanc, ond hefyd rhoddodd y cyfle iddo drafod ei rôl fel Comisiynydd newydd y wlad. Cynigiwyd cyfle i bob aelod staff fynd gyda Keith ar ymweliad a chafodd cysylltiadau gwych â grwpiau ac ysgolion newydd eu meithrin – fe wnaeth rhai ohonynt dreulio amser yn dilyn y Daith yn ein helpu i ddatblygu ein gwefan newydd.

Roedd sylw'r wasg ar gyfer y Daith wedi rhagori ar ein holl ddisgwyliadau – sicrhaodd y fim 91 o erthyglau cadarnhaol yn y wasg a 3480 o eiliadau o sylw darlledu, gan greu dros 3.3 miliwn o gyfleoedd i ddarllen neu glywed am Gomisiynydd Plant Cymru.

Prynwyd uned arddangos symudol ar gyfer y Daith, a fydd yn ein galluogi i deithio ledled Cymru, yn ymweld â phlant a phobl ifanc ym mhob math o amgylchedd. Bydd y cerbyd hwn hefyd yn gwasanaethu fel 'hysbysfwrdd' symudol gan ei fod wedi'i orchuddio â'n brand, gyda'n logo a'n manylion cyswllt; felly, cadwch lygad allan oherwydd gallai ymddangos ar ffordd fawr gyfagos cyn bo hir!


Er mwyn helpu i godi ymwybyddiaeth o'r Comisiynydd a'r CCUHP, cawsom gyfanswm o 299 o erthyglau'n ymddangos yn y wasg, yn cynnwys dros 3000 o gentimetrau colofn. Mae'r erthyglau hyn yn amrywio o ddatganiadau rhagweithiol i'r wasg a cholofn reolaidd yn y Western Mail, i ddatganiadau ymateb a gyhoeddwyd gennym o ganlyniad i ymholiadau lu gan y cyfryngau. Gwnaethom hefyd sicrhau dros 122 awr o amser ar yr awyr ar y radio a'r teledu, gan gynnwys rhaglen ddogfen hanner awr 'pry ar y wal' arbennig am y Comisiynydd ar BBC Un Cymru, gan olygu y bu 39 miliwn o gyfleoedd i ddarllen neu i glywed am y Comisiynydd dros y deuddeg mis diwethaf (ar sail ffigurau gwranddo a darllen).

Since April 2008, the Commissioner has visited at least one school or youth group every month. In October 2008 he took part in our inaugural Time to Talk / Time to Listen Tour which saw him visit every local authority in Wales, meeting over 1000 children and young people. The tour provided Keith with the opportunity to listen to children and young people but also gave him the chance to discuss his role as the country's new Commissioner. Every member of staff was offered the opportunity to accompany Keith on a visit and great relationships were forged with new groups and schools – some took time out after the Tour to help us develop our new website.

Press coverage for the Tour exceeded all expectation – the team secured 91 positive press articles and 3480 seconds of broadcast coverage, creating over 3.3 million opportunities to read or hear about the Children's Commissioner for Wales.

A mobile exhibition unit was purchased for the Tour which will enable us to travel across Wales, visiting children and young people in all kinds of environments. This vehicle will also double-up as a movable 'billboard' as it is heavily branded with our logo and contact details so keep your eyes peeled because it might end up on a road near you soon!

To help raise awareness of the Commissioner and the UNCRC, we have had a total of 299 articles appear in the press, consisting of over 3000 column centimetres. These articles range from coverage from proactive news releases and a regular column with the Western Mail, to reactive statements we have issued as a result of plentiful media enquiries. We also secured over 122 hours of air time on radio and television, including a special half-hour fly-on-the-wall documentary about the Commissioner on BBC One Wales, meaning that there have been over 39 million opportunities to read or hear about the Commissioner over the last twelve months (based on listenership and readership figures).



Hoo

Mimi

TRIPS

KEITH
TOWLER

FUN

Rights

HELPING



Cyfranogiad Participation

“Yn ôl y Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn (CCUHP), mae’n rhaid i blant a phobl ifanc gael dweud eu dweud am benderfyniadau sy’n effeithio’n uniongyrchol arnynt. Mae ein fframwaith presennol ar gyfer cynnwys yn ein galluogi ni i fabwysiadu’r egwyddor graidd hon trwy ganiatáu i farn plant a phobl ifanc ein helpu i benderfynu ar ein blaenoriaethau. Yn benodol, mae’r fframwaith hwn yn galluogi i blant a phobl ifanc sydd ar y cyrion, sy’n agored i niwed neu sy’n ‘anodd eu cyrraedd’ gael llais.”

“According to the United Nations Convention on the Rights of the Child (UNCRC), children and young people must have a say in decisions that directly affect them. Our current framework for involvement enables us to adopt this core principle by allowing children and young people’s views to help decide our priorities. In particular, this framework enables children and young people who are marginalised, vulnerable or ‘hard to reach’ to have a voice.”

Rydym wedi treulio amser eleni yn myfyrio ar sut rydym yn cynnwys plant a phobl ifanc wrth bennu ein blaenoriaethau gwaith. Rydym hefyd wedi bod yn cyflawni ein haddewidion i blant a phobl ifanc ac wedi parhau i gyfarfod â phlant a phobl ifanc â chefnidiroedd a phrofiadau amrywiol yn eu hysgolion a'u prosiectau ieuenctid, gan ddweud wrthynt am y Comisiynydd a'r CCUHP a'u holi nhw am eu bywydau ac am y pethau sy'n bwysig iddynt.

Rydym hefyd wedi gwranddo ar blant a phobl ifanc a'r gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda nhw er mwyn ein helpu i gynllunio ar gyfer y dyfodol. O 2009 ymlaen, byddwn yn rhoi system newydd ar waith a fydd yn ein galluogi ni i wrando ar blant a phobl ifanc yn systematig, wrth wneud yn siŵr bod y rheiny sy'n eirioli dros grwpiau mwy agored i niwed neu grwpiau lleiafrifol hefyd yn cael cyfle i wneud eu problemau nhw'n flaenoriaeth.

We have spent time this year reflecting on how we involve children and young people in setting our work priorities. We have also been fulfilling our promises to children and young people and continued to meet children and young people with diverse backgrounds and experience in their schools and youth projects, telling them about the Commissioner and the UNCRC and asking them about their lives and what's important to them.

We have also listened to children and young people and the professionals who work with them to help us plan for the future. From 2009, we will be implementing a new system which will enable us to systemically listen to children and young people, whilst making sure that those who advocate for more vulnerable or minority groups also have the opportunity to make their issues a priority.

Adolygiad o Chwarae

Yn 2008 gorffennom y cyntaf o ddau brosiect y penderfynodd plant a phobl ifanc arnynt drwy gyfrwng ein digwyddiadau 'Beth nesa?'.
 Roedd **Dawn Ddedwydd** yn adroddiad a wnaeth fwrw golwg ar strategaethau chwarae ledled Cymru ar gyfer plant a phobl ifanc anabl. Roedd yr adroddiad, a lansiwyd yn yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaerdydd ar Ddiwrnod Chwarae Cenedlaethol, yn archwilio realiti profiadau chwarae plant anabl yn eu cymunedau (gweler tudalen 44 am fwy o fanylion).

Yn dilyn y lansiad, mae staff cyfranogi wedi gwneud amser i roi adborth i'r bobl ifanc a wnaeth gymryd rhan yn y cam ymgynghori fel y gallant weld sut defnyddiwyd eu gwybodaeth a pha effaith y cafodd.

Following the launch, participation staff have made time to feedback to the young people involved in the consultation stage so that they can see how their information has been used and what impact it has made.

Play Review

In 2008 we finished the first of two projects which were decided by children and young people through our 'What next?' events.

A **Happy Talent** was a report that looked at play strategies across Wales for disabled children and young people. Launched at the National Eisteddfod in Cardiff on National Play Day, the report explored the reality of disabled children's play experiences in their communities (see page 44 for more details).

Following the launch, participation staff have made time to feedback to the young people involved in the consultation stage so that they can see how their information has been used and what impact it has made.

Mae Digwyddiadau **Beth Nesa'?**, a gynhelir yng ngogledd Cymru ac yn ne Cymru, yn caniatáu i blant a phobl ifanc ddylanwadu ar gynllun gwaith y Comisiynydd, a helpu i'w flaenoriaethu.

What next? Events, held in north Wales and south Wales, allow children and young people to influence and help prioritise the Commissioner's work plan.

Gwella Dysgu

Yr ail brosiect y penderfynwyd arno gan blant a phobl ifanc oedd Gwella Dysgu, pan wnaethant ofyn i ni fwrw golwg ar yr hyn sydd ei angen er mwyn gwneud i ddysgu yn yr ystafell dosbarth fod y profiad gorau ag y gall fod.

Buom yn edrych ar y syniad yn fanylach gyda phlant a phobl ifanc yn Eisteddfod yr Urdd ac yn yr Eisteddfod Genedlaethol, gan ofyn iddynt beth sy'n gwneud athro/athrawes dda yn eu barn nhw. Mae cynlluniau ar y gweill i rannu'r negeseuon allweddol hynny gyda phlant a phobl ifanc eraill mewn ysgolion uwchradd, Unedau Cyfeirio Disgyblion a sefydliadau addysg amgen. Rydym hefyd yn bwriadu cyfarfod â nifer o grwpiau eraill o gefndiroedd amrywiol i gael gwybod am eu profiadau, gan gynnwys plant anabl a phlant y gofelir amdanynt.

Mae'r negeseuon yr ydym wedi'u casglu hyd yn hyn yn syml ac yn ddiwyll iawn, ac os gwrandewir ar y rhain, byddant yn helpu i sicrhau bod eu profiadau o fywyd ysgol gyda'r gorau y gall fod.

Ein bwriad yw gwneud yn siŵr bod y negeseuon hyn ar gael i bob staff addysgu – gan gynnwys athrawon dan hyfforddiant – fel bod eu gwaith yn gallu bodloni anghenion y plant a'r bobl ifanc y maent yn eu haddysgu go iawn. Cyn cyhoeddi ym mis Medi 2009, ein bwriad yw cyfarfod ag athrawon, penaethiaid a sefydliadau perthnasol eraill, gan gynnwys undebau athrawon, er mwyn esbonio mwy am y prosiect ac i rannu rhai o'r negeseuon yr ydym wedi'u casglu oddi wrth blant a phobl ifanc.

Argymhellodd Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ym mis Hydref 2008 y dylai'r llywodraeth gryfhau cyfranogiad plant ym mhob agwedd ar addysg, yr ystafell ddosbarth a dysgu sy'n effeithio arnynt. Mae'r Comisiynydd yn ystyried bod canlyniad y prosiect hwn yn un rhan fechan o'r broses o wireddu'r argymhelliad hwn i blant yng Nghymru.

Bydd yn gofyn am adborth gan bawb sy'n cymryd rhan mewn addysg yng Nghymru ar ganlyniadau'r prosiect ac, yn bwysicaf oll, gan blant a phobl ifanc eu hunain.

Making Learning Better

The second project decided by children and young people was Making Learning Better where they asked us to look at what is needed to make learning in the classroom the best possible experience it can be.

We explored the idea in more detail with children and young people at both the Urdd and National Eisteddfod, asking them what they felt makes a good teacher. Plans are afoot to share those key messages with other children and young people in secondary school, Pupil Referral Units and alternative education establishments. We also plan to meet with a number of other groups from diverse backgrounds for their experiences, including disabled and looked-after children.

The messages we have gathered so far are very simple and straightforward, and if listened to, will help ensure their experiences of school life will be the best that it can be.

Our intention is to make these messages available to all teaching staff – including trainee teachers – so that their work can really meet the needs of children and young people they teach. Before publication in September 2009, we plan to meet with teachers, headteachers and other relevant organisations, including teachers' unions, to explain more about the project and to share some of the messages we have gathered from children and young people.

The United Nations Committee on the Rights of the Child recommended in October 2008, that the government should strengthen children's participation in all aspects of education, classroom and learning that affect them. The Commissioner sees the outcome of this project as being one small part of the process of making this recommendation a reality for children in Wales.

He will be seeking feedback from all those involved in education in Wales on the project's outcomes and most importantly from children and young people themselves.

Ein gwefan: www.complantcymru.org.uk

Mae gwefan y Comisiynydd wedi gweld trawsnewid llwyr eleni, gyda gwefan ffres a rhyngweithiol yn cael ei lansio i gyd-fynd â blwyddyn gyntaf Keith yn ei swydd (1 Mawrth 2009).

Cymerodd plant, pobl ifanc ac oedolion ran yn y gwaith ailgynllunio, gydag aelodau o'r fim cyfranogi'n ymgymryd ag ymweliadau â nifer o ysgolion, grwpiau a digwyddiadau ledled Cymru i gasglu adborth.

Datblygwyd gêm ar-lein yn ymwneud â'r CCUHP ar gyfer y wefan hefyd. Roedd plant a phobl ifanc eto'n chwarae rhan fawr yn natblygiad y gêm 'Eich Hawliau', gan rannu syniadau a chyfrannu at gam bwrdd stori'r broses. Gwnaethant ddylanwadu ar stori'r gêm yn ogystal â'i golwg a'i naws.

Mae adborth yn y gweithdai wedi bod yn hynod gadarnhaol ac mae ein cydweithwyr yn Ne Awstralia hefyd wedi dod atom gan ofyn caniatâd am fabwysiadu rhai elfennau ar gyfer eu gwefan newydd nhw.

Our website: www.childcomwales.org.uk

The Commissioner's website has seen a complete overhaul this year, with a fresh and interactive website being launched to coincide with Keith's first year in post (1 March 2009).

Children, young people and adults were involved in the redesign, with members of the participation team undertaking visits to a number of schools, groups and events across Wales to gather feedback.

An online game all about the UNCRC was also developed for the website. Children and young people were again heavily involved in the development of the 'Know Your Rights' game, sharing ideas and inputting into the storyboard stage of the process. They influenced the story of the game as well as the look and feel.

Feedback in workshops has been extremely positive and we have also been approached by our counterparts in South Australia for permission to adopt certain elements for their new website.

Dyfyniad gan aelod o'n Grŵp Ymgynghorol

"RYDYM WEDI DYSGU LUNYTH O BETHAU NEWYDD - AM GOMISIYNYDD PLANT CYMRU, AM BETH MAE'N EI WNEUD, AM HAWLIAU, CYFWEIADAU AC RYDYM WEDI DYSGU GĒMAU NEWYDD!"

Quote from a member of our Advisory Group

"WE'VE LEARNT LOADS OF NEW STUFF - ABOUT THE CHILDREN'S COMMISSIONER FOR WALES, ABOUT WHAT HE DOES, ABOUT RIGHTS, INTERVIEWS AND WE'VE LEARNT NEW GAMES!"

Ateb Nôl: www.complancymru.org.uk/atebno1

Ateb Nôl yw'r un o'n ffyrdd o gael gwybod barn plant a phobl ifanc am bethau. Ochr yn ochr ag aildatblygiad gwefan y Comisiynydd, mae Ateb Nôl hefyd wedi cael ei drawsnewid. Ers ei lansio'n wreiddiol chwe blynedd yn ôl, roedd Ateb Nôl wedi bod yn grŵp arolwg trwy e-bost. Mae'r Ateb Nôl newydd yn gyfres o gwestiynau am fater penodol sy'n ymddangos ar y wefan newydd. Mae'n cynnig llwyfan cadarn y mae plant a phobl ifanc ledled Cymru, oddi yno, yn gallu rhannu eu barn a'u safbwyntiau gyda swyddfa'r Comisiynydd. Mae'r cwestiynau'n newid yn rheolaidd ac mae'r atebion a gasglwn yna'n cael eu defnyddio yn ein gwaith, gan gynnwys ymatebion i ymgynghoriad ar bolisi.

Fel rhan o aildatblygiad y wefan, roedd plant a phobl ifanc o bob cwr o Gymru wedi cymryd rhan wrth gynllunio brand newydd ar gyfer Ateb Nôl. Bellach, bydd y brand newydd hwn yn cael ei ddefnyddio ar ddeunydd marchnata, fel tafenni a matiau llygod, i godi ymwybyddiaeth o Ateb Nôl ymhlith plant a phobl ifanc.

Backchat: www.childcomwales.org.uk/backchat

Backchat is one of the ways we find out children and young people's views about issues. Alongside the redevelopment of the Commissioner's website, Backchat has also been overhauled. Since its original launch six years ago, Backchat had been an email survey group. The new Backchat is a series of questions about a particular issue which appear on the new website. It provides a solid platform from which children and young people from across Wales are able to share their views and opinions with the Commissioner's office. The questions change regularly and the answers we gather are then used in our work, including policy consultation responses.

As part of the website redevelopment, children and young people from across Wales were involved in designing a new brand for Backchat. This new identity will now be used on marketing material, such as leaflets and mouse mats, to raise awareness of Backchat among children and young people.

Dyfyniad gan aelod o'n Grŵp Ymgynghorol

"HOFFWN FANTEISIO AR Y CYFLE HWN I DDIOLCH I CHI AM BOBETH RYDYCH WEDI WNEUD I'M HELPŪ; MAE'R CYFARFODYDD WEDI GWELLA FY HYDER A'M HUNAN-GRED, RHWY'N GOBEITHIO'N FAWR Y BYDDAF I'N GALLU BOD YN GYSYLLTIEDIG A'R COMISIYNYDD PLANT ETO YN Y DYFODOL AGOG."

Quote from a member of our Advisory Group

"I WOULD LIKE TO TAKE THIS OPPORTUNITY TO THANK YOU ALL THAT YOU HAVE DONE TO HELP ME; THE MEETINGS HAVE BUILT UP MY CONFIDENCE AND SELF-BELIEF, I SINCERELY HOPE I WILL BE ABLE TO BE INVOLVED WITH THE CHILDREN'S COMMISSIONER AGAIN IN THE NEAR FUTURE."

Crynodeb o weithgarwch 08/09
Summary of activity 08/09

Unwaith eto mewn adolygiad blynyddol, rwy’n ailadrodd fy nghanmoliaeth o Lywodraeth Cynulliad Cymru ac yn wir y gefnogaeth drawsbleidiol gan Gynulliad Cymru am eu cefnogaeth barhaus tuag at waredu pob math o gosbi plant yn gorfforol yng Nghymru. Unwaith eto, fodd bynnag, rwy’n mynegi fy siom sylweddol nad yw Llywodraeth San Steffan yn cyd-fynd â hyn ac mae wedi colli cyfleoedd mynych i ymestyn yr agenda hwn.

Mae’r Arsyllwadau Casgliadol diweddaraf wedi ailadrodd argymhellion Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn bod plaid y wladwriaeth **‘yn gwahardd fel blaenoriaeth pob cosb gorfforol yn y teulu, gan gynnwys diddymu pob amddiffyniad cyfreithiol’**.

Nid yw’r sefyllfa bresennol yn cydymffurfio o gwbl ag egwyddorion a darpariaethau’r CCUHP ac ni ddylid gosod y mater hwn o’r neilltu ac rwyf yn annog llywodraethwyr Cymru a’r Deyrnas Unedig i gadw hwn yn uchel ar eu agenda.

Parenting Action Plan and a lack of progress

I was pleased that the National Assembly for Wales’ Children and Young People Committee conducted an inquiry into the Parenting Action Plan in Wales. I provided evidence to this inquiry and look forward to reading the recommendations which are expected in May 2009.

What is clear to me is the crucial role that parents and carers play in children’s lives. There needs to be a clear commitment from the Welsh Assembly Government to considering and addressing the recommendations of the Committee’s report.

Physical punishment

Once again in an annual review, I repeat my commendation of the Welsh Assembly Government and indeed the cross party support from the National Assembly for Wales for their continued support for the eradication of all forms of physical punishment of children in Wales. Once again, however, I express my deep regret that the Westminster government does not concur and has repeatedly missed opportunities to further this agenda.

The latest Concluding Observations reiterated the UN Committee on the Rights of the Child’s recommendation that the state party **‘prohibit as a matter of priority all corporal punishment in the family, including the repeal of all legal defences’**.

The current situation simply does not comply with the principles and provisions of the UNCRC and this issue must not be laid to rest and I urge both Welsh and UK politicians to keep this high on their agenda.

Cyllidebau

Rwyf yn ymwybodol o’r pwysau y mae’r setliadau cyllideb presennol yn eu gosod ar awdurdodau lleol. Gall adnoddau ariannol mor gyfyngedig atal gweithrediad polisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gyson gan awdurdodau lleol ledled Cymru. Rwyf wedi gweld nifer o enghreifftiau o benderfyniadau a weir mewn perthynas â phlant sy’n cael eu cyfyngu gan ystyriaethau adnoddau yn hytrach na bod lles pennaf plant yn brif flaenoriaeth. Nododd adroddiad Comisiynwyr Plant y Deyrnas Unedig i Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn bod angen am nodi’n glir beth yw dyraniad cyfan y gyllideb ar gyfer plant.

Croesewais y dadansoddiad o’r gwariant cyllidebol cyfan ar blant a gynhyrchwyd fel cam pwylllog cychwynnol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Rwyf hefyd yn aros am argymhellion ymchwiliad Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Cynulliad Cenedlaethol Cymru i gyllidebu ar gyfer plant. Mae pwysigrwydd bod yn dryloyw ynghylch faint o gyllid sydd ar gael ar gyfer gwasanaethau plant a phobl ifanc yn arwyddocaol o ran caniatáu am gyflawni dadansoddiad o’r gwelliant mewn canlyniadau.

Budgets

I am aware of the pressures that current budget settlements place on local authorities. Such limited financial resources may prevent the consistent implementation of Welsh Assembly Government policies by local authorities across Wales. I have seen a number of instances of decisions that are made in relation to children that are constrained by resource issues rather than the best interests of children being paramount. The UK Children’s Commissioners’ report to the United Nations Committee on the Rights of the Child identified the need for clear identification of overall budget allocation for children.

I welcomed the analysis of overall budgetary spend on children that was produced by the Welsh Assembly Government as a first tentative step. I also await the recommendations of the National Assembly for Wales Children and Young People Committee’s inquiry into child budgeting. The importance of having transparency around the amount of funding available to services for children and young people is important in allowing analysis of the improved outcomes achieved.

— **Nod 2: Cael mynediad i ystod gynhwysfawr o gyfleoedd addysg, hyfforddiant a dysgu, gan gynnwys caffael sgiliau personol a chymdeithasol hanfodol.**

— **Aim 2: Have access to a comprehensive range of education, training and learning opportunities, including acquisition of essential personal and social skills.**

Adolygiad Cenedlaethol o Ymddygiad a Phresenoldeb

Roedd yr Adolygiad Cenedlaethol o Ymddygiad a Phresenoldeb yn ymarfer mewn bwrw golwg ar y materion pwysig iawn sy'n effeithio ar brofiad ysgol bob dydd plant a phobl ifanc. Mae cynllun gweithredu y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'i gynhyrchu ac mae angen i waith cymhwysu'r argymhellion hynny fod yn gynhwysfawr ledled Cymru.

Cynigion ad-drefnu ysgolion

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymgynghori ar arweiniad diwygiedig i awdurdodau lleol yn ymwneud â chynigion ad-drefnu ysgolion. Cynigiodd y ddogfen ymgynghori y dylid ystyried barn plant a phobl ifanc fel rhan o'r broses o ad-drefnu ysgol.

Fodd bynnag, nid yw'r arweiniad hwnnw yn statudol eto ac, yn ystod y flwyddyn, cysylltwyd â'm swyddfa ynghylch nifer o enghreifftiau o gau ac uno ysgolion a'r effaith negyddol y byddai'r cynigion hynny yn ei chael ar y plant yn yr ysgol. Mae hyn yn amlwg yn fater dadleuol a buaswn yn pryderu os yw awdurdodau lleol yn parhau i fethu ag ystyried barn y plant a'r bobl ifanc sy'n cael eu heffeithio a chymryd camau cadarnhaol i gasglu'r safbwyntiau hynny.

National Behaviour and Attendance Review

The National Behaviour and Attendance Review was an exercise in looking at the very important issues which affect children and young people's every day school experience. There is an action plan which the Welsh Assembly Government has produced and the implementation of those recommendations needs to be comprehensive across Wales.

School reorganisation proposals

During the past year Welsh Assembly Government has consulted on revised guidance to local authorities in relation to school organisation proposals. The consultation document proposed that children and young people's views must be taken into account as part of the process of reorganising a school.

However that guidance is not yet statutory and during the year my office was contacted about a number of school closures and mergers and the negative impact that those proposals could have on the children in the school. This is clearly a contentious issue and. I would be concerned if local authorities continue to fail to take account of the views of the children and young people affected and take positive steps to gather those views.

Y fframwaith arolygu cyffredin ar gyfer addysg a hyfforddiant

Mae'r ymgynghoriad diweddar ar y fframwaith cyffredin diwygiedig ar gyfer addysg a hyfforddiant yn cynnig lefel uwch o adborth gan ddysgwyr o fewn y system. Roeddwn wedi croesawu'r cynnig hwnnw ac edrychaf ymlaen at ddarllen y fframwaith pan fydd wedi'i lunio'n derfynol. Fel yr wyf yn gwybod yn dda o'm hymweliadau ag ysgolion a cholegau, mae plant a phobl ifanc mewn sefyllfa unigryw i gynnig golwg fanwl ar effeithiolrwydd ysgolion a manau dysgu eraill a bydd casglu eu barn yn bwysig ar gyfer gwella ymhellach yr addysg y maent hwy a'u cymheiriaid yn ei derbyn. Bydd hefyd yn cyfrannu at wireddu ymhellach Erthygl 12 y CCUHP.

Common inspection framework for education and training

The recent consultation on the revised common framework for education and training proposes a greater level of learner feedback within the system. I welcomed that proposal and look forward to reading the new framework when it is finalised. As I know well from my visits to schools and colleges, children and young people are uniquely placed to provide an insight into the effectiveness of schools and other places of learning and the gathering of their views will be important in further improving the education that they and their peers receive. It will also provide a further realisation of Article 12 of the UNCRC.

Toiledu Ysgol

Mae plant a phobl ifanc yn parhau i fynegi eu pryderon i mi ynghylch safon glendid a'r ddarpariaeth toiledau ysgol. Adroddodd Estyn ym mis Mai 2008 fod agweddau ar doiledau yn anfodhaol yn hanner yr ysgolion uwchradd ac yng nghwarter yr ysgolion cynradd a gafodd eu cynnwys yn yr arolwg. Lle nad yw disgyblion yn fodlon â chyflwr y toiledau ysgol, maent yn fwy tebygol o beidio ag yfed digon o ddŵr yn ystod y diwrnod ysgol er mwyn osgoi eu defnyddio. Gall hyn gael effaith andwyol ar eu hiechyd a'u gallu i ddysgu.

Ym mis Mawrth 2009, lluniodd yr ymchwiliad e-coli annibynnol ei adroddiad terfynol ac argymhellion. Clywodd yr ymchwiliad fod Llywodraeth Cynulliad Cymru, oherwydd pwysau eraill adeg cyhoeddi adroddiad fy rhagflaenydd, **Codi'r Clawr**, wedi penderfynu peidio â gweithredu ar ei ganfyddiadau o ran toiledau ysgol.

Gwnaeth adroddiad terfynol yr ymchwiliad e-coli yn glir nad oedd cyflwr y toiledau ysgol a hylendid yn yr ysgolion wedi achosi na chyfrannu at y brigiad e-coli. Fodd bynnag, mae'r adroddiad yn amlygu bod darparu cyfleusterau toiled digonol yn ofyniad sylfaenol.

Rwyf wedi ystyried canfyddiadau'r adroddiad ac wedi cael fy siomi bod cyn lleied o wybodaeth wedi cael ei rhoi i'm swyddfa ynghylch adeiladu ar wella toiledau ysgolion ar draws Nghymru. Awgrymodd y Gweinidog Plant y llynedd y byddai safonau gofynnol cenedlaethol yn cael eu datblygu ar gyfer toiledau ysgol. Gobeithiaf y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cymryd yr awenau'n safonau o'r fath ar waith cyn gynted ag y bo modd, gyda chydweithrediad awdurdodau lleol. Mae plant Cymru wedi aros yn rhy hir i gael darpariaeth toiledau ysgol sy'n gyson dda. Rhaid bod cyflwyno safonau gofynnol cenedlaethol yn cael ei ategu gan gyllid i sicrhau bod pob plentyn yn gallu defnyddio toiledau o ansawdd da yn eu hysgolion.

>>

School Toilets

Children and young people continue to express their concerns to me about the standard of cleanliness and provision of school toilets. Estyn reported in May 2008 that aspects of toilets are unsatisfactory in half of the secondary schools and in a quarter of primary schools surveyed. Where pupils are not happy with the condition of school toilets, they are more likely not to drink enough water during the school day so as to avoid using them. This can have an adverse effect on their health and ability to learn.

In March 2009, the independent e-coli inquiry produced its final report with recommendations. The inquiry had heard that due to other pressures at the time of publication my predecessor's report, **Lifting the Lid**, the Welsh Assembly Government had decided not to act on its findings in relation to school toilets.

The e-coli inquiry's final report made it clear that the condition of the school toilets and hygiene in the schools did not cause or contribute to the e-coli outbreak. However, the report does highlight that the provision of adequate toilet facilities is a basic requirement.

I have considered the findings of the report and have been disappointed that there has been little information provided to my office about progressing the improvement of school toilets across Wales. The Minister for Children last year indicated that there would be the development of national minimum standards for schools toilets. I hope that the Welsh Assembly Government will take a positive lead and implement such standards as soon as possible with the cooperation of local authorities. Wales' children have waited for too long to have consistently good school toilet provision. The introduction of national minimum standards must be backed up with funding to ensure that all children have access to high quality toilets in their schools.

>>

Lwfans Cynhaliath Addysg (EMA)

Yn ystod fy ymweliadau ag ysgolion a cholegau ledled Cymru, mae pobl ifanc wedi mynegi pryder a dryswch ynghylch cymhwyso'r lwfans cynhaliath addysg. Mae plant a phobl ifanc o'r farn bod anghydraddoldeb yn perthyn i'r ffordd y gall y system ei gweithredu a gall hyn achosi poendod i'r bobl ifanc. Yn fy marn i, ni ddylid bod dibyniaeth ar grantiau o'r fath i sicrhau bod pobl ifanc yn parhau'n gysylltiedig ag addysg. Mae'n ymddangos i mi ei fod yn anghytuno â'r nod o ddarparu cyfleoedd addysg cynhwysfawr i blant bod system sy'n achosi cymaint o bryder i bobl ifanc yn bodoli. Buaswn yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i adolygu effaith yr EMA ar bobl ifanc ac i ymgysylltu â nhw a chasglu eu barn am y mater pwysig hwn yn llawn.

Nyrsys Teulu

Rwyf wedi ymateb i ddogfen ymgynghori Llywodraeth Cynulliad Cymru ar ddatblygu gwasanaeth nyrsys teulu ar draws Cymru. Dywed plant a phobl ifanc wrthyf i eu bod yn ymddiried mewn nyrsys ysgol a'u bod yn bwysig ac yn cael eu gwerthfawrogi. Rwyf hefyd wedi cyfarfod â nyrsys ysgol ac wedi gwrandao ar eu barn am yr ymgynghoriad. Edrychaf ymlaen at weld sut mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn symud y datblygiad polisi pwysig hwn yn ei flaen ar draws Cymru.

The views of children and young people must be sought in developing those standards. Children and young people also need to be involved in their own schools in reviewing current provision. Developing new provision and reviewing the outcome will be crucial if we are to achieve change on this major issue for children and young people. There can be few other major signs of the respect that is shown to children than the condition of the toilets that they are expected to use.

My office has dealt with a number of calls to the advice and support service this year relating to school toilets, for example, one school imposed a ban on children using toilets during lesson time because of concerns about vandalism. After supporting a child at the school to resolve this issue, the school revised its policy in conjunction with the children in the school and that has led to a more child friendly approach. Children have the right to health and, in some schools the poor state of pupils' toilets can infringe that right.

Education Maintenance Allowance (EMA)

During my visits to schools and colleges across Wales, young people have expressed concern and confusion about the application of the education maintenance allowance. Children and young people feel that there is inequality in the way in which the system is operated and this can cause upset for the young people. My view is that there should not be a reliance on such grants to ensure that young people remain engaged in education. It would appear to me to be at odds with the aim of providing comprehensive educational opportunities to children that a system which causes so much concern to young people is in existence. I would call on the Welsh Assembly Government to review the effect of the EMA on young people and to engage and gather fully their views on this important issue.

Family Nurses

I responded to the Welsh Assembly Government's consultation document on the development of a family nursing service across Wales. Children and young people tell me that they trust school nurses and that they are important and valued. I have also met with school nurses and have listened to their views on the consultation. I look forward to seeing how the Welsh Assembly Government take forward this important policy development across Wales.

— **Nod 3: Mwynhau'r iechyd corfforol a meddyliol, cymdeithasol ac emosiynol gorau posibl, gan gynnwys rhyddid rhag camdriniaeth, dioddefaint ac ecsbloetio.**

— **Aim 3: Enjoy the best possible physical and mental, social and emotional health, including freedom from abuse, victimisation and exploitation.**

Ymddygiad rhywiol niweidiol

Rwyf yn parhau i aros am ymateb y Gweinidog dros lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i'r argymhellion a wnaed ym mis Mai 2008 gan y grŵp gorchwyl a gorffen ar wasanaethau i blant sy'n dangos ymddygiad rhywiol niweidiol.

Gofal newydd-anedig

Rwyf wedi croesawu'r cyllid ychwanegol a gyhoeddwyd yn 2008 ar gyfer gwasanaethau newydd-anedig ledled Cymru. Fodd bynnag yn ystod y flwyddyn, tynnwyd fy sylw at yr anawsterau parhaol a'r ddarpariaeth gwasanaeth ar gyfer y babanod hyn a'u teuluoedd mewn rhai rhannau o Gymru. Rwyf yn ystyried p'un ai a wnaif ddefnyddio fy mhwerau adolygu mewn perthynas a'r maes pwysig hwn o ddarpariaeth iechyd.

Mwy o angen am gwrsela yn y gymuned

Rwyf wedi croesawu cyhoeddi strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer y gwasanaethau cwnsela mewn ysgolion a gynigiwyd yn un o argymhellion ymchwiliad **Clywch**. Rydym wedi clywed gan nifer o ffynonellau bod cyflwyno gwasanaethau o'r fath wedi amlygu'r angen bod gwasanaethau tebyg ar gael i blant a phobl ifanc yn y gymuned. Mae lles emosiynol yn bwysig ar gyfer pob plentyn ac unigolyn ifanc ac mae darparu gwasanaethau cyffredinol yn rhan o strwythur pedair haen y Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed.

Sexually harmful behaviour

I still await the response of the Minister for Health and Social Services to the recommendations made in May 2008 of the task and finish group on services for children who demonstrate sexually harmful behaviour.

Neo natal care

I have welcomed the additional funding announced in 2008 for neo natal services across Wales. However through the year my attention has been drawn to the continuing difficulties with service provision for these babies and their families in some areas in Wales. I am considering whether to use my powers of review in relation to this important area of health provision.

Greater need for counselling in the community

I have welcomed the publication of the Welsh Assembly Government's strategy for school-based counselling services which was proposed in a recommendation of the **Clywch** inquiry. We have heard from several sources that the introduction of such services has highlighted the need for similar services to be available to children and young people in the community. Emotional well being is important for all children and young people and the provision of universal services is part of the four tier structure of Child and Adolescent Mental Health Services.

Ad-drefnu'r GIG

Dros y flwyddyn ddiwethaf, bu canolbwyntio sylweddol ar ad-drefnu strwythurau iechyd yng Nghymru. Rwyf yn parhau i fod a phryderon ynghylch y pwysigrwydd a roddir ar faterion iechyd plant adeg y cyfnod hwn o drawsnewid. Rwyf yn arbennig o bryderus ynghylch gallu'r Byrddau Iechyd Lleol newydd eu hehangu i ymgymryd a'u rolau ar Fyrddau Lleol Diogelu Plant. Mae llwyddiant y cyrff strategol hyn yn dibynnu'n fawr ar weithio mewn partneriaeth ac ar allu pob un o'r partneriaid i weithio'n effeithiol gyda phartneriaid eraill. Mae achosion diweddar o farwolaethau plant wedi amlygu rôl bwysig darparwyr iechyd wrth nodi anafiadau plant. Felly, rwy'n pryderu nad yw'r ymgynghori diweddar ar uno gwasanaethau iechyd cyhoeddus ar draws Cymru yn ddigon cadarn o ran rôl Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru wrth ddiogelu plant.

Mae diogelu plant yn dasg hynod heriol fel y mae rhai achosion uchel iawn eu proffil wedi dangos dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae'n gofyn am staff sydd wedi'u hyfforddi a'u symbylu'n fawr, sydd a'r adnoddau digonol i weithio gyda phlant agored i niwed a'u teuluoedd. Mae datblygiadau yng Nghymru dros y flwyddyn ddiwethaf wedi dangos bod angen i Lywodraeth Cynulliad Cymru fod a strategaeth glir ar waith a fydd yn sicrhau bod pob plentyn yn cael ei ddiogelu'n effeithiol.

NHS reorganisation

The past year has seen a considerable focus on the reorganisation of the health structures in Wales. I continue to have concerns about the importance attached to children's health issues at this time of transition. I am particularly concerned about the ability of the newly enlarged Local Health Boards to undertake their roles on Local Safeguarding Children's Boards (LSCBs). The success of these strategic bodies depends greatly on partnership working and the ability of each of the partners to be able to work effectively with other partners. Recent cases of child deaths have highlighted the important role of health providers in identifying child injuries. I am therefore concerned that the recent consultation on the unification of public health services across Wales is not sufficiently robust in relation to the role of the National Public Health Service in Wales in safeguarding children.

Safeguarding children is an extremely challenging task as has been demonstrated by some very high profile cases over the past year. It requires highly trained and motivated staff with sufficient resources to work with vulnerable children and their families. Developments in Wales in the past year have shown the need for Welsh Assembly Government to have a clear strategy in place that will ensure that all children are effectively safeguarded.

— **Nod 4: Cael mynediad i weithgareddau chwarae, hamdden, chwaraeon a diwylliannol.**

— **Aim 4: Have access to play, leisure, sporting and cultural activities.**

Chwarae

Roedd chwarae yn un o'r prif faterion a nodwyd yn ystod proses adrodd y CCUHP. Er bod Cymru wedi arwain y ffordd gyda pholisi chwarae cenedlaethol, mae'n glir bod llawer i'w wneud o hyd o ran sicrhau'r hawl i chwarae ar gyfer pob plentyn yng Nghymru. Mae datblygiad parhaus y Cyfnod Sylfaen wedi bod yn amlwg i mi ar lawer o'm hymweliadau ag ysgolion eleni a bydd hyn yn adeiladu disgwiliad y bydd lefelau tebyg o ddarpariaeth a mynediad yn y gymuned. O ran chwarae, mae'n hanfodol bod camau'n cael eu cymryd i sicrhau bod y ddarpariaeth yn cyfateb i'r disgwiliad sy'n cael ei godi nawr.

Clywaf yn gyson gan blant a phobl ifanc fod cludiant gwael neu ddarpariaeth nad oes modd ei fforddio, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, yn golygu eu bod yn methu â chymryd mantais ar yr ystod ehangach o weithgareddau chwarae, hamdden, chwaraeon a diwylliannol sy'n cael eu darparu ar gyfer plant a phobl ifanc heddiw.

Play

Play was one of the major issues identified during the UNCRC reporting process. It is clear that although Wales led the way with a national play policy, there is still much to be done in relation to securing the right to play for every child in Wales. The continuing development of the Foundation Phase has been evident to me on my many visits to schools this year and this will build an expectation of similar levels of provision and access in the community. It is vital that in relation to play steps are taken to ensure that provision matches the expectation that is now being raised.

I hear constantly from children and young people that poor transport or unaffordable provision, particularly in rural areas, means that they are unable to take advantage of the wider range of play, leisure, sporting and cultural activities provided for children and young people today.

We will seek to ensure that children and young people's issues are considered by the Public Transport Users' Committee for Wales when this is established and it will be essential that ways of engaging children are found that are accessible and allow full participation.

Although there have been small scale pilots of half-price bus travel for 16-18 year olds in two local authorities in Wales, I would urge there to be a comprehensive review of transport policy for all children and young people in Wales, as I am often asked why older people can have free bus travel and yet children and young people cannot. I am unable at present to provide an answer to their valid question.

— **Nod 5: Cael eu trin â pharch, gan gydnabod eu hil a'u hunaniaeth ddiwylliannol.**

— **Aim 5: Treated with respect and have their race and cultural identity recognised.**

Mesur Cydraddoldeb

Rwyf yn bryderus o hyd nad yw'r Mesur Cydraddoldeb a gynigiwyd gan Lywodraeth y DU wedi talu sylw i'r alwad gan Bwyllgor y Cenedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn i gynnwys plant yn y darn unigol arloesol hwnnw o ddeddfwriaeth cydraddoldeb. Dywed y CCUHP yn glir fod hawl gan blant beidio â dioddef gwahaniaethu yn eu herbyn, eto mae'r llywodraeth yn cynnig gwneud hynny'n union trwy gyflwyno cyfreithiau gwrth-wahaniaethu sy'n eithrio plant.

Rydym wedi parhau i weithio gyda'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC) yng Nghymru a rhoddasom dystiolaeth i'w ymchwiliad cenedlaethol ar hawliau dynol a fydd yn cael ei gyhoeddi'n ddiweddarach yn 2009. Mae gorgyffwrdd clir rhwng gwaith yr EHRC a'r Comisiynydd Plant ac rydym yn gobeithio, trwy weithio gyda'n gilydd, y bydd cryfhau pellach ar hawliau a hawliau dynol plant yng Nghymru.

Plant sy'n ceisio lloches

Rwy'n pryderu bod cynnydd wrth wella addysg plant sy'n ceisio lloches, yn enwedig y plant hynny sy'n 15 oed ac yn hŷn, fel yr amlinellwyd yn y Strategaeth Cynnwys Ffoaduriaid, wedi bod yn arafach na'r disgwyl. Mae'r plant hyn sydd o bosibl wedi dioddef trawma a chyffro sylweddol yn eu bywydau'n gallu dioddef anawsterau wrth bontio i'r ysgol. Mae'r plant hyn yn wynebu anawsterau sylweddol wrth gael mynediad i ddarpariaeth hyfforddiant yr iaith Saesneg, sy'n gallu eu helpu nhw i gael mynediad i addysg a hyfforddiant. Buaswn yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i fod yn ddiwyll wrth weithredu'r camau sydd wedi'u cynnwys yn y Strategaeth Cynnwys Ffoaduriaid.

Rwy'n pryderu hefyd ynghylch y gostyngiad yn y cyllid a ddarparwyd i'r Cyngor Ffoaduriaid i ddarparu'r Panel Plant. Felly, rwy'n galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i gynnal ei hymrwymiad i ddarparu cefnogaeth eiriolaeth i blant sy'n ceisio lloches a ffoaduriaid yng Nghymru.

Equality Bill

I remain concerned that the Equality Bill which has been proposed by the UK Government has not taken note of the call from the UN Committee on the Rights of the Child to include children in that ground breaking single piece of equality legislation. The UNCRC is clear that children have the right not to be discriminated against, yet the government is proposing to do exactly that with the introduction of anti-discrimination laws that exclude children.

We have continued to work with the Equality and Human Rights Commission (EHRC) in Wales and gave evidence to their national human rights inquiry which will be published later in 2009. There are clear overlaps between the work of the EHRC and the Children's Commissioner and we hope that, by working together, there will be a further strengthening of children's rights and human rights in Wales.

Children seeking asylum

I am concerned that progress in improving the education of asylum seeking children, particularly those aged 15 and over, as outlined in the Refugee Inclusion Strategy has been slower than anticipated. These children who may have experienced considerable trauma and upheaval in their lives can experience difficulties in the transition to school. There are considerable difficulties faced by these children in accessing English language training provision which can help them to access education and training. I would call on the Welsh Assembly Government to be transparent in their implementation of the actions contained in the Refugee Inclusion Strategy.

I am also concerned at the reduction in funding that has been provided to the Refugee Council to provide the Children's Panel. I therefore call on the Welsh Assembly Government to maintain its commitment to the provision of advocacy support to asylum seeking and refugee children in Wales.

Eiriolaeth

Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn dyst i rywfaint o gynnydd tuag at ddatblygu fframwaith newydd ar gyfer eiriolaeth i blant a phobl ifanc. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi penodi cydlynedd ar gyfer ei Huned Datblygu Eiriolaeth a Pherfformiad. Mae darparu eiriolaeth yn fater allweddol yn ymwneud â hawliau plant sy'n agwedd bwysig iawn ar y continwrm cyfranogi ac mae'n rhan hanfodol o'r agenda diogelu. Rwyf yn gwyllo'r cynnydd a wneir mewn perthynas â'r gwasanaeth allweddol hwn gyda diddordeb mawr ac wedi sylwi ar yr oedi sydd wedi cael ei achosi oherwydd gwaith ad-drefnu'r gwasanaeth iechyd ar draws Cymru.

Fy ngobaith, pan fydd yr ad-drefnu wedi'i gwblhau, yw y bydd cynnydd sylweddol yn cael ei wneud yn ymestyn cwrpas gwasanaethau eiriolaeth ledled Cymru i sectorau iechyd ac addysg. Byddai cynnydd o'r fath yn dystiolaeth glir o ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru ac awdurdodau lleol i hawliau plant. Rwyf yn ymwybodol iawn bod amrywiaeth o drefniadau ar gyfer eiriolaeth plant yn bodoli ar hyn o bryd a gall hyn fod yn ddrislyd ac yn rhwystredig i blant.

Advocacy

The past year has seen some progress towards the development of a new framework for advocacy for children and young people. The Welsh Assembly Government has appointed a coordinator for its Advocacy Performance and Development Unit. The provision of advocacy is a key children's rights issue that is a very important aspect of the participation continuum and is a vital part of the safeguarding agenda. I am watching with considerable interest the progress being made in relation to this key service and have noted the delays caused by the reorganisation of the health service across Wales.

I hope that, once reorganisation is complete, significant progress will be made in extending the scope of advocacy services across Wales into health and education sectors. Such progress would be a clear demonstration of the Welsh Assembly Government and local authorities' commitment to children's rights. I am mindful that at present there exists a variety of arrangements for children's advocacy and this can be confusing and frustrating for children.

— Nod 6: Meddu ar gartref diogel a chymuned sy'n cynnal lles corfforol ac emosiynol.

— Aim 6: Have a safe home and community that supports physical and emotional wellbeing.

Portreadau Negyddol

Cafodd Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn eu synnu gan y negyddoldeb cyffredinol tuag at blant a phobl ifanc yn y Deyrnas Unedig. Serch hynny, rwy'n cyfarfod â nifer enfawr o blant a phobl ifanc sy'n gweithio'n galed i wneud cyfraniad cadarnhaol i'w cymunedau a thrwy eu cynghorau ysgol. Rwyf bob amser yn cael fy ysbrydoli gan eu hymroddiad a'u brwdfrydedd dros helpu i wneud newid cadarnhaol, ac mae hyn bob amser yn gwneud argraff arnaf i.

Yn gynnar yn 2009 cymerais ran mewn cyfres gan BBC Cymru o'r enw 'What are we doing to our kids?' Roedd fy rhagflaenydd Peter Clark wedi siarad yn hir am destun parch tuag at blant a bues yn atgyfnerthu'r angen am y cysyniad allweddol hwn. Roedd y gyfres wedi amlygu natur newidiol plentyndod fel y mae plant Cymru'n cael profiad ohono heddiw. Yr hyn a ddaeth yn glir i mi oedd bod angen am ymchwil a thrafodaeth barhaus ar fywydau plant a phobl ifanc yng Nghymru heddiw.

Troseddu Ieuencid

Mewn sesiwn o gyflwyno dystiolaeth i Bwyllgor y Cenhedloedd yr Unedig ar Hawliau'r Plentyn yr oeddwn, pan wnes i a'm cyd-Gomisiynwyr Plant yn y Deyrnas Unedig, alw am i'r system cyfiawnder ieuencid gydymffurfio â'r CCUHP. Roeddem hefyd wedi galw am yr angen am amlygu ffyrdd y gallai plant a phobl ifanc gymryd rhan mewn adolygu effeithiolrwydd mesurau i atal troseddu a hyrwyddo cymunedau mwy diogel. Ac, yr adeg pan oeddwn gyda'r Pwyllgor hwn oedd yr adeg pan godais y cwestiwn ynghylch dichonoldeb datganoli gwasanaethau cyfiawnder ieuencid i Gymru.

Dyma ddatganiad beiddgar ond teimlais ei fod yn angenrheidiol oherwydd mae'n ymddangos i mi bod Llywodraeth San Steffan, sy'n parhau i reoli'r gwasanaeth cyfiawnder ieuencid heb ei ddatganoli, yn gweithio yn groes i ddull sy'n seiliedig ar hawliau a bod hyn yn ei dro yn llethu'r weinyddiaeth ddatganoledig yng Nghaerdydd i raddau rhag datblygu ei huchelgais.

Ar hyn o bryd yn y Deyrnas Unedig, mae gennym system gyfiawnder ieuencid nad yw'n cydymffurfio â'r CCUHP ac sy'n parhau i gael ei dominyddu gan ddull sy'n cosbi.

>>

Negative Portrayals

The United Nations Committee on the Rights of the Child were surprised by the overriding negativity towards children and young people in the United Kingdom. I however meet a vast number of children and young people who are working hard to make a positive contribution to their communities and through their school councils. I am always inspired and impressed by their drive and enthusiasm to help make positive change.

In early 2009 I took part in a BBC Wales series entitled 'What are we doing to our kids?' My predecessor Peter Clark talked at length about the issue of respect for children and I reinforced the need for this key concept. The series highlighted the changing nature of childhood as experienced by Welsh children today. What became clear to me was that there is a need for continuing research and debate around children and young people's lives in Wales today.

Youth Offending

It was during an evidence-giving session to the UN Committee on the Rights of the Child that I, along with my fellow UK Children's Commissioners, called for the youth justice system to be UNCRC compliant. We also called for the need to identify ways in which children and young people are able to participate in reviewing the effectiveness of measures to prevent crime and promote safer communities. And it was with this Committee that I raised the question about the feasibility of devolving youth justice services to Wales.

It was a bold statement but was one that I felt was necessary because it seems to me that the Westminster Government, who remain in control of the non devolved youth justice service, works against the grain of a rights based approach and that this in turn somewhat stifles the devolved administration in Cardiff in progressing its ambition.

Currently in the UK, we have youth justice system which does not comply with the UNCRC and is dominated by a punitive approach.

>>

Teithio gan ddysgwyr

Er y caf fy nghalonogi wrth siarad ag ymarferwyr, sy'n sicr yn rhannu fy rhwystredigaeth, erys plant sy'n parhau'n gaeth i'r system hon ac y mae eu triniaeth ymhell o fod fel y byddwn yn ei ddisgwyl. Er enghraifft, mae gennym bobl ifanc yng Nghymru sy'n cael eu cadw mewn lleoliadau diogel yn Lloegr, mewn penbleth o fod cannoedd o filltiroedd i ffwrdd o'u teuluoedd, wedi'u hamddifadu rhag cael cymorth iechyd meddwl digonol ac yn astudio cwricwlwm anghyfarwydd.

Dyma ddiwedd y gân: nid yw plant yn methu ein system, mae ein system yn eu hesgeuluso a'u methu nhw.

Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi gweld darn pwysig o ddeddfwriaeth yn cael ei basio yn ymwneud â theithio gan ddysgwyr. O dan y cynigion, bydd un cod ymddygiad ar gyfer yr holl blant a phobl ifanc sy'n teithio i fannau dysgu. Rwyf yn croesawu'r cynnig hwn a bŵm yn gweithio gyda'm grŵp ymgynghorol i roi adborth i Lywodraeth Cynulliad Cymru wrth i'r cod gael ei ddatblygu. Rwy'n cael fy nghalonogi gan gytundeb y Llywodraeth i ymgynghori â phlant a phobl ifanc ar y cynnig pwysig hwn a chan yr ymrwymiad i adolygu effeithiolrwydd y cod gyda phlant a phobl ifanc eu hunain. Mae gan blant a phobl ifanc hawl i deithio ar gludiant glân ac i deimlo'n ddiogel wrth iddynt wneud eu ffordd i'w manau dysgu ac oddi yno.

Whilst I'm encouraged by speaking to practitioners, who clearly share my frustration, there are still children caught up in this system whose treatment is way short of what I expect. For example, we have young people from Wales being detained in secure settings in England, bewildered by being hundreds of miles away from their family, deprived of adequate mental health support and studying an unfamiliar curriculum.

The bottom line is this: children are not failing our system our system is neglecting and failing them.

Learner travel

The past year has seen the passing of an important piece of legislation in relation to learner travel. Under the proposals there will be a single behaviour code for all children and young people travelling to places of learning. I welcome this proposal and have been working with my advisory group to provide feedback to the Welsh Assembly Government as the code has been developed. I am encouraged that the Government has agreed to consult with children and young people on this important proposal and the commitment to reviewing the effectiveness of the code with children and young people themselves. Children and young people have the right to travel on clean transport and to feel safe as they make their way to and from their places of learning.

— Nod 7: Heb gael eu rhoi o dan anfantais gan dlodi plant.

— Aim 7: Are not disadvantaged by child poverty.

Tlodi Plant

Mae'n bosibl mai tlodi plant yw'r broblem unigol bwysicaf oll sy'n wynebu'r Gymru fodern. Ailadroddodd cytundeb polisi Cymru'n Un y nod o haneru tlodi plant erbyn 2010 a'i waredu erbyn 2020.

Ym mis Mehefin 2008 gwelsom lansiad y strategaeth 'Gweithredu ar Dlodi Plant' gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, a oedd yn anelu at gyflwyno deddfwriaeth newydd er mwyn gosod dyletswyddau ar asiantaethau cyhoeddus o ran tlodi plant, gofal plant am ddim, gwasanaethau eraill y blynyddoedd cynnar a strategaethau i gefnogi plant sy'n agored i niwed. Dyma ddatblygiad i'w groesawu ac mae'n sicrhau bod mwyr o asiantaethau'n cydnabod bod hyn yn ystyriaeth i bob un ohonom ac sydd angen ateb cymhleth iddo. Serch hynny, un fenter yw hon mewn plethora o symudiadau polisi lle mae gweithredu a chynnydd o ran tlodi plant wedi bod yn annigonol. Mae'n rhaid i hyn newid.

Mae blaenoriaeth genedlaethol yn gofyn am bolisi cenedlaethol blaenllaw fel hon, ond hefyd mae arni angen ewyllys gwleidyddol a chamau dewr gan lywodraeth ar lefel Cymru a San Steffan. Mae'r amgylchiadau economaidd presennol yn cynnig amgylchedd mwy heriol i fynd i'r afael â'r mater hwn, fodd bynnag, ni ddylid defnyddio'r dirwasgiad yn esgus. Mae tlodi plant yn fater o hawliau plant, ac mae hawliau'n bodoli mewn unrhyw amgylchedd, efallai'n dod hyd yn oed yn fwy pwysig pan fo'r sefyllfa economaidd sydd ohoni yn dirywio. Yr effaith ar y rheiny sydd eisoes yn dioddef anfantais yw cynyddu'r bwlch rhyngddynt ac eraill tra bod y nifer sy'n dioddef anghydraddoldeb tlodi plant yn cynyddu. Ni ellir gwarantu iechyd a lles pob un o'n plant a phobl ifanc hyd nes bod tlodi cymharol plant yn cael ei ddileu.

Child Poverty

Child poverty is possibly the single most important issue facing modern Wales. The One Wales policy agreement reiterated the aim to halve child poverty by 2010 and eradicate it by 2020.

In June 2008 we saw the Welsh Assembly Government launch the strategy 'Taking Action on Child Poverty' which aimed to introduce new legislation to put duties on public agencies in respect of child poverty, free childcare, other early years services and strategies to support vulnerable children. This is a welcome development and ensures more agencies recognise that this is an issue for us all and that a complex problem requires a complex antidote. It is however, one initiative in a plethora of policy moves where implementation and progress on child poverty has been inadequate. This must change.

A national priority requires a national flagship policy such as this, but it also needs political will and brave actions from government at both the Wales and Westminster level. The current economic circumstances provide a more challenging environment in which to address the issue, however the recession must not be used as an excuse. Child poverty is a child rights issue, and rights exist in any environment, perhaps even becoming more important when the prevailing economic situation is in a downturn. The effect for those who are already suffering disadvantage is to increase the gap between themselves and others whilst the number suffering the inequality of child poverty increases. The health and wellbeing of all of our children and young people can only be guaranteed when relative child poverty is eradicated.

Casgliad Conclusion

Pan ddeuthum i'r swydd, roeddwn eisiau gwneud yn siŵr bod y proffil a roddwyd i hawliau plant, y problemau y mae plant a phobl ifanc yn eu hwynebu bob dydd a rôl Comisiynydd Plant Cymru yn cael ei godi ymhlith plant a phobl ifanc, yn ogystal ag ymhlith y cyhoedd. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, tybiaf ein bod wedi gwneud cynnydd da ond hir yw'r daith o'n blaenau. Mae'r Arsyllwadau Casgliadol gan Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wedi pennu cyfeiriad ein taith a bydd yn rhoi meincnod i ni asesu ein cynnydd yn ei erbyn.

Edrychaf ymlaen at chwarae fy rhan yn y flwyddyn sydd i ddod a galwaf ar bawb sy'n gallu gwneud cyfraniad tuag at wireddu hawliau plant, i dorchi llewys a mynd ati.

When I came into post I wanted to make sure that the profile given to children's rights, the issues that children and young people face everyday and the role of the Children's Commissioner for Wales was raised with children and young people as well as with the general public. In the last year I think we have made good progress but we have a long road to travel. The Concluding Observations from the UN Committee on the Rights of the Child have set out the direction we must travel and will provide a benchmark against which we can assess our progress.

I'm looking forward to playing my part in the year ahead and call upon all those who can make a contribution to making children's rights a reality, to roll up their sleeves and get on with it.



Keith Towler



Cyllido

Mae Comisiynydd Plant Cymru yn annibynnol ar Lywodraeth Cynulliad Cymru, ond mae'n derbyn ei gyllid ganddi. Yn 2008-09 derbyniodd y Comisiynydd £1.8 miliwn (2007-08: £1.9 miliwn) i ariannu ei weithgareddau. Ers sefydlu swyddfa'r Comisiynydd Plant mae swm y cyllid a dderbynnir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru wedi cynyddu'n raddol i gyfateb i faich gwaith cynyddol y Comisiynydd.

Fformat y cyfrifon

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â Pharagraff 7(2) Atodlen 2 Deddf Safonau Gofal 2000 a'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru. Gellir cael copi o'r cyfarwyddyd hwnnw gan y Comisiynydd Plant, Tŷ Oyster-mouth, Charter Court, Phoenix Way, Abertawe, SA7 9FS.

Paratowyd y cyfrifon hyn ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2008 i 31 Mawrth 2009 ac maent yn adlewyrchu asedau, rhwymedigaethau ac alldro adnoddau'r Comisiynydd Plant.

Canlyniadau am y flwyddyn

Mae'r Datganiad Cost Weithredol yn dangos cost weithredol net, am y cyfnod, o £2,051,000 (2007-08: £1,754,000) sy'n gynydd o 16.9 y cant mewn gwariant net o gymharu â 2007-08. Balans y gronfa gyffredinol ar ddiwedd y flwyddyn yw £117,000 (2007-08: £321,000).

Yn ystod 2008-09 newidiodd staff y Comisiynydd o 28 (26 cyfwerth ag amser llawn) i 33 (30 cyfwerth ag amser llawn) aelod o staff sy'n cynnwys gweithwyr amser llawn a rhan-amser. Roedd y cynnydd yn nifer y staff, tua diwedd y flwyddyn ariannol, i adlewyrchu baich gwaith cynyddol swyddfa'r Comisiynydd.

Absenoldebau staff

Yn ystod 2008-09, 11 y cant oedd y gyfradd absenoldeb salwch yn swyddfa'r Comisiynydd, wedi'i seilio fel canran o gyfanswm y diwrnodau gwaith a oedd ar gael.

Apwyntiadau uwch swyddogion

Penodwyd Keith Towler yn Gomisiynydd Plant Cymru i weithio o 1 Mawrth 2008. Dechreuodd penodiadau'r uwch swyddogion eraill rhwng mis Ionawr 2001 a mis Mawrth 2006, ac fe'u penodwyd gan y Comisiynydd o dan Atodlen 2 paragraff 4 Deddf Safonau Gofal 2000.

Funding

The Children's Commissioner for Wales is independent of, but funded by the Welsh Assembly Government. In 2008-09 the Commissioner received £1.8 million (2007-08: £1.9 million) to fund his activities. Since the establishment of the office of the Children's Commissioner the amount of funding received from the Welsh Assembly Government has increased steadily to match the ever increasing workload of the Commissioner.

Format of the accounts

These financial statements have been prepared in accordance with Paragraph 7(2) Schedule 2 of the Care Standards Act 2000 and the Accounts Direction issued by Welsh Ministers. A copy of that direction can be obtained from The Children's Commissioner, Oyster-mouth House, Charter Court, Phoenix Way, Swansea, SA7 9FS.

These accounts have been prepared for the period from 1st April 2008 to 31st March 2009 and reflect the assets, liabilities and resource outturn of the Children's Commissioner.

Results for the year

The Operating Cost Statement shows a net operating cost, for the period, of £2,051,000 (2007-08: £1,754,000) representing an increase in net expenditure of 16.9 percent compared to 2007-08. The general fund balance as at the year-end is £117,000 (2007-08: £321,000).

